

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AM
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

25 Mehefin 2018

Annwyl Russell

Yn dilyn cyfarfod o Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Ddydd Iau 7 Mehefin 2018, amgaeaf bapur sydd yn dangos sut mae Cymru yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o Strategaeth Ddiwydiannol y DU.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', written in a cursive style.

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymru a Strategaeth Ddiwydiannol y DU

Mae'r nodyn hwn yn disgrifio sut mae Cymru yn manteisio ar gyfleoedd sy'n codi o Strategaeth Ddiwydiannol y DU.

1. Cyllid Ymchwil, Datblygu ac Arloesi y DU

1.1. Nid yw'r rhan fwyaf o gyllid ymchwil, datblygu ac arloesi y DU wedi'i ddatganoli i Gymru a chaiff ei ddyrannu ar sail gystadleuol gan Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) - y corff newydd sy'n cyfuno cynghorau ymchwil y DU ac Innovate UK.

1.2. Mae'r swm o gyllid y mae Cymru wedi'i ennill gan Innovate UK wedi bod yn cynyddu bob blwyddyn. Enillwyd dros £88 miliwn ers 2010/11 ac mae o leiaf £48 miliwn arall wedi'i gadarnhau ond heb ei dynnu i lawr. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y ceisiadau presennol, gweithredol i'r Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol.

1.3. Mae rhai uchafbwyntiau diweddar yn cynnwys:

- Catapwlt Cymwysiadau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yng Nghasnewydd. Yn y pen draw, bydd hyn yn tynnu i lawr £56 miliwn o gyllid Innovate UK, gyda'r posibilrwydd o ennill rhagor yn sgil galwadau cystadleuol am gyllid.
- Enillodd Prifysgol Abertawe gyllid i gynnal un o chwe Chanolfan Arloesi a Gwybodaeth (IKC).
- Cynhaliodd Llywodraeth Cymru dri hwb 'Launchpad' ar gyfer cwmnïau Technoleg Feddygol, Ffotoneg a Seiberddiogelwch.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain ar y Fenter Ymchwil Busnesau Bach gyda chyd-gyllid o £2.8 miliwn gan Innovate UK ac mae nifer o geisiadau o Gymru yn aros am benderfyniadau ynghylch cefnogaeth.

1.4. Mae'r enghreifftiau o gwmnïau o Gymru sydd wedi llwyddo i gael cyllid gan Innovate UK yn cynnwys:

- Riversimple, yn Llandrindod, sy'n anelu at ddileu effaith amgylcheddol cludiant personol drwy ddatblygu cerbydau sy'n gweithio gyda chell tanwydd hydrogen. Cafodd gwaith ymchwil i blethu ffeibr carbon, pan gydweithredodd y cwmni o Gymru â Phrifysgol Manceinion, ei gefnogi gan Innovate UK.
- ReNeuron, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n cydweithredu â Chatapwlt Therapi Cell a Genynnau'r DU ac academia i ehangu gweithgynhyrchu, technoleg prosesau, ac arbenigedd ansawdd drwy ddylunio.

- Jellagen, yng Nghaerdydd, yw'r gweithfeydd gweithgynhyrchu masnachol cyntaf ar gyfer echdynnu colagen pur iawn o sglefrod y môr oddi ar arfordir gorllewin Cymru, i ddarparu bioddefnydd effeithiol ar gyfer meithrin celloedd, gofalu am glwyfau ac adfywio.
- SPECIFIC, ym Maglan, sy'n troi'r cysyniad o 'adeiladau fel gorsafoedd pŵer' yn realiti. Cafodd SPECIFIC £20 miliwn o fuddsoddiad cychwynnol fel Canolfan Arloesi a Gwybodaeth ar gyfer haenau diwydiannol gweithredol, wedi'i ddilyn gan gyllid cam 2 o £26 miliwn. Yn fwy diweddar, llwyddodd i sicrhau £800,000 o gyllid i adeiladu'r prototeip Swyddfa Iach.

1.5. Mae Cymru wedi bod yn llwyddiannus, hefyd, yn y gwobrau GovTech, gyda sefydliadau o Gymru yn sicrhau £2.5 miliwn (40%) o gyllideb yn yr alwad gyntaf ar gyfer prosiectau digidol.

2. Y Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol (ISCF)

- 2.1. Mae'r Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol yn darparu cyllid a chefnogaeth i fusnesau ac ymchwilwyr y DU. Mae'r gronfa yn rhan o gynnydd o £4.7 biliwn Llywodraeth y DU mewn ymchwil a datblygu dros 4 blynedd; gyda thros £2 biliwn ohono wedi'i ddyrannu'n bennaf i waith ymchwil a datblygu a gaiff ei arwain gan fusnesau.
- 2.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a gaiff eu cynnig gan y Gronfa hon, gan fod llawer o'r agweddau yn cyd-fynd â chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru, yn arbennig yr agwedd Galwadau i Weithredu.

Y Don Gyntaf

- 2.3. Canfu Lywodraeth y DU chwe her, gan glustnodi £1 biliwn o gyllid i'r don gyntaf o heriau. Mae cystadlaethau cynnar wedi cael eu cynnal ac mae'r don gyntaf o gyllid wrthi'n cael ei dyrannu.
- 2.4. Mae busnesau a sefydliadau yng Nghymru wedi ennill tua £8 miliwn o gyllid y don gyntaf hyd yma, a bydd rhagor o gyllid yn cael ei ddyrannu.
- 2.5. Mae'r enghreifftiau o geisiadau llwyddiannus o Gymru hyd yma y cynnwys:

- Canolfan Driniaeth Therapi Uwch - prosiect Gwasanaeth Gwaed Cymru mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Birmingham lle y dyfarnwyd £1.6 miliwn i bartneriaid o Gymru. Mae cwmnïau o Gymru wedi bod yn bartneriaid i gonsortia eraill hefyd, gan sicrhau £0.5 miliwn ychwanegol. Bydd hyn yn chwarae rhan allweddol wrth drosi therapïau arloesol. Mae'r consortiwm yn cynnwys busnes o Gaerdydd o'r enw Trakcel, sy'n datblygu meddalwedd rhestru/tracio ar gyfer therapïau uwch.
- Hexigone Inhibitors (Abertawe), i ddatblygu gorchudd hunan-wella sy'n ymatebol i'r amgylchedd.

- Picofluidics Ltd (Caerdydd) ar gyfer peirianeg arwynebau a gorchuddio templedi polymer.
- Medaphor (Caerdydd) ar gyfer cymorthyddion rhithwir i nodwyddo o dan arweiniad uwchsain.

2.6. Mae prosiectau'r dyfodol yn cynnwys trafodaethau am her Faraday ar fatris y dyfodol a chyfleoedd yn ymwneud â phrosiectau arfaethedig yng Nglynebwy.

Yr Ail Don

2.7. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi £725 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer yr ail don, a fydd yn digwydd yn 2018 a 2019.

2.8. Mae cystadlaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ar gyfer Ail Don ISCF, ond nid oes cyhoeddiadau ynghylch dyfarniadau wedi cael eu gwneud yn swyddogol eto.

2.9. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ar gyfer busnesau ac academia. Mae enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cynnal gweithdai yng Nghymru ar gyfer llawer o'r wyth her newydd: Trawsnewid Adeiladu, y Chwyldro Ynni, Trawsnewid Cynhyrchu Bwyd, Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf a Chynulleidfa'r Dyfodol, yn ogystal â dwy her newydd yn ymwneud ag iechyd. Heneiddio'n lach a Phatholeg Ddigidol, delweddu a deallusrwydd artifisial (AI).

2.10. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnig cefnogaeth i nifer fawr o geisiadau mawr a gaiff eu harwain gan sefydliadau o Gymru. Er ei bod yn anodd darogan canlyniadau'r cystadlaethau, mae Cymru mewn lle da i ennill degau o filiynau o bunnoedd o fuddsoddiad newydd dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Y Drydedd Don

2.11. Daeth y broses o fynegi diddordeb ar gyfer y drydedd don o heriau i ben ar 18 Ebrill 2018. Mae llawer o'r heriau arfaethedig hyn yn cael eu dewis ar gyfer gwaith pellach gan UKRI cyn i achos busnes gael ei gyflwyno i Drysorlys EM i gael ei ariannu.

2.12. Gofynnwyd i ddiwydiant ac ymchwil Y DU gyflwyno cynigion wedi'u halinio'n eglur ag o leiaf un o'r pedair her fawr. Roedd disgwyl i gynigion a gyflwynwyd gael eu drafftio mewn cydweithrediad gan gonsortium o ddiwydiant ac academia neu allu dangos tystiolaeth o ofyniad yn y diwydiant cyfan.

2.13. Disgwylir i brosiectau o dair her y drydedd don gychwyn o fis Ebrill 2019 a pharhau am hyd at dair blynedd.

3. Bargeinion yn y Sector

- 3.1. Mae'r partneriaethau hyn rhwng y llywodraeth a diwydiant yn cynorthwyo diwydiannau i oresgyn problemau penodol y maent yn eu hwynebu. Bydd y partneriaethau'n cynnwys cyngorau diwydiant sy'n cwrdd yn rheolaidd i ganfod trafferthion a phenderfynu sut i fynd i'r afael â hwy. Mae'r cyngorau yn cynnwys arweinwyr diwydiannau a chynrychiolwyr y llywodraeth.
- 3.2. Mae'r bargeinion yn y sector wedi cael eu cytuno ym meysydd gwyddorau bywyd, adeiladu, deallusrwydd artiffisial a'r sector moduro. Mae trafodaethau â'r sectorau diwydiannau creadigol a digidoleiddio diwydiannol yn parhau.
- 3.3. Bydd y Llywodraeth yn creu Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol annibynnol i asesu cynnydd a gwneud argymhellion i'r llywodraeth.

4. Y Gronfa Cryfder mewn Lleoedd (SIPF)

4.1. O dan arweiniad Ymchwil ac Arloesi y DU, cynllun cyllido cystadleuol newydd yw'r Gronfa hon sy'n digwydd mewn dull sy'n seiliedig ar le, i gefnogi twf rhanbarthol sylweddol. Cyfanswm cyllideb y DU ar gyfer y cam hwn yw £115 miliwn, er y gallai fod cylchoedd eraill os bydd y galw yn uchel.

4.2. Nodau lefel uchel y Gronfa Cryfder mewn Lleoedd yw:

- Cefnogi twf rhanbarthol a gaiff ei arwain gan arloesedd drwy ganfod a chefnogi cryfderau yn y maes ymchwil a datblygu sy'n llywio clystyrau o fusnesau o amrywiol feintiau sydd â'r potensial i arloesi, neu addasu i dechnolegau newydd fel y gall y clystyrau hynny fod yn gystadleuol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Gwella cydweithredu lleol sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi. Adeiladu ar rôl effaith economaidd ranbarthol greiddiol prifysgolion, sefydliadau ymchwil, Catapwltau a chyfleusterau ymchwil a datblygu eraill (fel IKCs); a sicrhau bod y busnesau hynny yn flaenllaw o ran y gwaith o ddarparu twf economaidd drwy arloesi o fewn y ddaearyddiaeth economaidd a nodwyd.

4.3. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru, Prifysgolion Cymru a'r CBI weithdy ar y cyd yng Nghaerdydd ar yr SIPF ar 7 Mehefin ar gyfer amrywiaeth o randdeiliaid. Disgwylir i lawer o geisiadau ddeillio o'r gweithdy, gan gynnwys ceisiadau ar Led-ddargludyddion Cyfansawdd, Seiberddiogelwch, Dur a Metalau, Niwclear a Gwyddorau Bywyd.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae cyllido Strategaeth Ddiwydiannol yn parhau i fod yn gam gymharol ddiweddar ac mae swm sylweddol o gyllid yn parhau heb ei ddyrannu. Er bod y dulliau cyllido hyn yn gystadleuol, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn yn gyfle, nid bygythiad.

- 5.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar y Strategaeth Ddiwydiannol mewn ffordd sy'n seiliedig ar barch at gyfrifoldebau eraill a phartneriaeth adeiladol pan mae hyn o fudd i Gymru.
- 5.3. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo'r galw a'r cyfleoedd i gynulleidfaoedd Cymru a chefnogi ceisiadau strategol lle mae gan Gymru fantais a lle maent yn cyd-fynd ag amcanion llywodraeth Cymru.